

Cyfarfod Grŵp Iechyd a Diogelwch

20 Hydref 2022

Yn bresennol:

Kelland Dickens, Rheolwr AD
Dyfan Evans, Goruchwylydd Coetir
Tegryn Jones, Prif Weithredwr
Liz Rooney, Cynrychiolydd Unsain
Libby Taylor, Rheolwr y Gwasanaeth Parcmyn
Sharron Thomas, Cynorthwylydd Gweinyddol (Rheoli Datblygu)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Andrew Muskett, Rheolwr Prosiectau Adeiladu a Daisy Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr (De).

2. Cofnodion a Materion yn Codi

Dywedwyd bod holl ddogfennau'r Grŵp Iechyd a Diogelwch bellach ar gael yn y ffolder gyhoeddus AD / Iechyd a Diogelwch ar y gyriant F a rennir. Mae gwaith ar y gweill gyda Mair Thomas i fudo i Sharepoint maes o law.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Diolchwyd i aelodau'r grŵp oedd wedi cyflwyno sylwadau ar ddrafftio'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch, a diwygiwyd y penawdau pwnc yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Cadarnhaodd Kelland Dickens ei fod yn dal i aros am wybodaeth gan rai Swyddogion cyn gallu cwblhau'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch, ac na fyddai'r adroddiad yn barod mewn pryd ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol. Felly byddai'r adroddiad yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ar ôl cwblhau'r adroddiad.

Cam gweithredu wedi'i gario ymlaen tan i'r adroddiad gael ei gwblhau – KD.

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y grŵp hefyd yn cael ei gario ymlaen i'r cyfarfod hwnnw.

Cam gweithredu wedi'i gario ymlaen tan i'r cylch gorchwyl gael ei gwblhau - KD.

Cadarnhawyd bod y wybodaeth a ddiweddarwyd ar gyfer Polisiâu Diogelwch Tân Caeriw, Oriel y Parc, Milton, Cilirhedyn a Llwynhelyg wedi'i hanfon at Kelland Dickens, ac unwaith y byddai mân addasiadau wedi'u gwneud, bydd y polisiâu yn fyw fis Rhagfyr.

Cam gweithredu wedi'i gario ymlaen tan i'r polisiâu gael eu cwblhau – KD.

Roedd Hyfforddiant Swyddogion Tân wedi'i drefnu ar gyfer 25 Hydref 2022.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Dyweddod Kelland Dickens bod nifer y Swyddogion Tân wedi cynyddu yn dilyn Covid, ac y byddai cyfres o hyfforddiant gwacáu adeilad yn cael ei chwblhau yn Llanion.

Roedd Hyfforddiant Cymorth Cyntaf wedi'i gynnal fis Medi ac roedd hyfforddiant pellach ar y gweill.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Cadarnhawyd bod Hyfforddiant Cerbydau Oddi ar y Ffordd wedi'i gynnwys yn y Matrics Hyfforddiant a bod yr hyfforddiant wedi'i gynnal.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Dyweddod Kelland Dickens nad oedd rheolwyr wedi ateb yn llawn i'r ceisiadau am fanylion ar hyfforddiant gorfodol i'r staff. Byddai felly yn cyfarfod â'r rheolwyr fel rhan o'r Adolygu Cyflogau a Graddfeydd i gasglu'r wybodaeth hon ynghyd â Disgrifiadau Swydd a Manylebau Person newydd.

Cam gweithredu wedi'i gario ymlaen nes cael ei gwblhau - KD.

3. AMDDIFFYN STAFF YN ERBYN CAM-DRIN

Dyweddod Sharon Thomas bod gan yr Awdurdod system yn flaenorol oedd yn galluogi mapio ymddygiad heriol gan gleient/y cyhoedd ar gyfer Swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd safle.

Dyweddod bod y pryderon yn parhau o fewn y tîm, ond nad yw'r system yn cael ei defnyddio bellach. Roedd yn cydnabod y gallai hyn fod â goblygiadau o ran materion GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), ond roedd am wybod a ellir ymchwilio i hyn unwaith eto gan fod cynnydd wedi bod mewn ymddygiad heriol tuag at aelodau'r staff.

Dyweddod Tegryn Jones bod Sharon yn gywir i godi hyn o safbwynt Cynllunio ond bod yr un peth yn wir o ran unrhyw aelod o'r staff sy'n cynrychioli'r Awdurdod, gan gynnwys Wardeniaid a Pharcmyr. Dywedodd Tegryn Jones y dylid hefyd ymchwilio i'r materion Rhyddid Gwybodaeth.

Dyweddod Libby Taylor wrth y grŵp bod haen GIS yn arfer bodoli er mwyn rhestru digwyddiadau (nid unigolion), a dywedodd Sharon bod MapInfo yn arfer cael ei ddefnyddio i'r diben hwn.

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod rhaid i unrhyw restr gydymffurfio â'r rheoliadau GDPR gan y byddai angen dangos buddiant dilys a chyfiawn, megis pryderon gwirioneddol ynghylch iechyd, diogelwch a lles y staff. Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai'n cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, Phil Barlow a Swyddogion perthnasol eraill i geisio datrys y sefyllfa.

Cam gweithredu – KD

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH

Dyweddod Kelland Dickens bod camau yn dal heb eu cymryd ar dri maes o'r Awdurdod, ac y byddai'n parhau i fynd ar drywydd y materion hyn. Cadarnhaodd na fyddai'r adroddiad ar gael tan ddiwedd 2022 gan na lwyddwyd i gadw at y terfyn amser.

Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau pellach gan aelodau'r grŵp.

Cam gweithredu wedi'i gario ymlaen nes cael ei gwblhau – KD

5. SYNDROM DIRGRYNIAD LLAW-BRAICH (HAVS)

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod cymeradwyaeth wedi'i rhoi a bod arian ar gael o fewn y gyllideb AD i alluogi Swyddog o'r Awdurdod weithio yn llawn amser ar y prosiect. Byddai hyn yn galluogi'r gwaith gael ei gwblhau ar brofi lefelau dirgrynu pob peiriant a ddefnyddir gan yr Awdurdod. Byddai mesuriadau wedyn yn dechrau ar effaith gweithio ag offer dirgrynol ar y staff.

6. ADRODDIAD AR DDIGWYDDIADAU

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod yr adroddiad a anfonwyd at aelodau'r grŵp bellach wedi'i rannu rhwng digwyddiadau sy'n ymwneud â staff a'r rhai sy'n ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd; roedd hyn yn dilyn cais gan y grŵp yn y cyfarfod diwethaf.

Gofynnodd i'r aelodau adolygu'r adroddiad, fel y gall unrhyw faterion a ddysgwyd gael eu cyflwyno i'w rhoi ar waith.

Dyweddod Kelland Dickens bod cyngor eisoes wedi'i roi mewn nifer o achosion, i wella hyfforddiant a / neu'r prosesau, gan felly leihau'r tebygolrwydd y byddai unrhyw ddigwyddiad yn digwydd drachefn.

Dyweddod Tegryn Jones bod nifer y digwyddiadau yn ymddangos yn isel, a gofynnodd a oedd y Swyddogion yn cofnodi pob digwyddiad.

Dyweddod y byddai'n trefnu cyfarfod staff yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf a'i fod am atgoffa'r staff o'r angen i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad fu bron â digwydd.

Dyweddod Tegryn Jones pe na bai damweiniau fu bron â digwydd yn cael eu cofnodi, na allai'r Awdurdod ymateb yn effeithiol. Dyweddod hefyd y dylid adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â cham-drin geiriol yn erbyn Swyddogion yr Awdurdod, gan y gall hynny gael effaith ddifrifol ar iechyd a lles y staff.

Ymatebodd Kelland Dickens drwy ddweud bod y Pwyllgor wedi codi'r mater yn y gorffennol - gan roi sylwadau ar y nifer isel o achosion fu ond y dim iddynt ddigwydd. Dyweddod, o ganlyniad i hyn, bod y mater wedi'i gynnwys yn y cyfarfod diwethaf o'r 'holl staff', a chyfeiriwyd at hyn ymhellach yn y Cylchlythyr Staff.

Dyweddod Kelland Dickens y byddai cyfathrebu pellach yn cael ei wneud i barhau i atgyfnerthu'r neges. Dyweddod y byddai'n ailddrafftio'r ddogfen er mwyn annog bod pob achos o gam-drin geiriol yn cael eu cofnodi.

Gweithredu – KD

Dyweddod Kelland Dickens ei fod o'r farn bod angen i'r Awdurdod fod yn fwy disgybledig yn ei agwedd tuag at iechyd a diogelwch, a gofynnodd i reolwyr llinell

godi'r materion hyn yn eu cyfarfodydd tîm rheolaidd, bron fel eitem sefydlog ar yr agenda.

Dywedodd bod angen rhaeadru gwybodaeth o'r Arweinyddiaeth i lawr i ymgorffori negeseuon allweddol ar draws yr Awdurdod.

Dywedodd y dylai rheolwyr fod yn gofyn cwestiynau mewn cyfarfodydd megis "a fu unrhyw ddigwyddiad fu bron â digwydd y mis hwn?" ac "a fu unrhyw achos o gam-drin geiriol?". Dywedodd bod angen siarad am y materion hyn er mwyn ennyn y staff i gyfranogi.

Soniodd Libby Taylor am ddigwyddiad o gam-drin geiriol yn ei hardal gan ofyn a ddylai'r Awdurdod fod yn rhoi mwy o gymorth a hyfforddiant i'r Parcmyn. Dywedodd nad oedd staff newydd bob amser wedi'u harfogi i ymdrin â'r cyfryw faterion, a bod aelodau sydd wedi bod yn gweithio am gyfnod hwy wedi hen arfer â delio â digwyddiadau o'r fath fel rhan o'r swydd.

Dywedodd Kelland Dickens y dylai'r Awdurdod fod yn darparu hyfforddiant gan ddweud bod yr adran AD yn gweithio ar Gynllun Sefydlu ar draws yr Awdurdod ac y dylai rhai rolau gael hyfforddiant 'hanfodol' ar sut i ymdrin â sefyllfaoedd anodd a gwrthdaro. Dywedodd y dylid gwneud hyn i ddiogelu'r gweithiwr rhag dioddef straen a'r Awdurdod rhag unrhyw hawliadau posibl am niwed personol.

Dywedodd Libby Taylor bod hyfforddiant wedi'i gyflwyno yn y gorffennol.

Dywedodd Tegryn Jones ei fod yn cytuno â Libby Taylor ond nad oedd yn derbyn y dylai aelodau o staff sydd wedi bod yn gweithio am gyfnod hwy dderbyn cam-drin fel rhan o'r swydd. Soniodd Tegryn Jones, Libby Taylor a Kelland Dickens am y newid mewn cymdeithas a'r gweithle ers Covid-19.

Gofynnodd Tegryn Jones a ellid categoreiddio digwyddiadau o gam-drin geiriol. Dywedodd Kelland Dickens y byddai'n ymchwilio i'r manteision o wneud hynny. Cadarnhaodd Tegryn Jones bod hyfforddiant i'r staff wedi'i gynnal yn y gorffennol, oedd wedi'i gyflwyno gan ddau heddwes o Gaerdydd oedd wedi ymddeol.

Dywedodd Kelland Dickens y byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn trefnu hyfforddiant pellach.

Gweithredu – Kelland Dickens

7. Salwch Staff

Gofynnwyd i'r grŵp a oeddent wedi cael golwg ar yr ystadegau salwch a ddarparwyd.

Hysbysodd Kelland Dickens y grŵp mai Covid-19 ac yn bwysicach na hynny Straen, Gorbryder ac Iechyd Meddwl oedd yr achosion mwyaf o absenoldebau ar draws yr Awdurdod.

Dywedodd bod y ffigurau yn dangos y gallai rhai aelodau o staff fod yn dueddol o ddiodeff problemau iechyd meddwl ac o bosibl eu bod yn llai cydnerth i ymdrin â gwrthdaro, sy'n amlygu unwaith eto yr angen i gynnal hyfforddiant ar reoli gwrthdaro a pharhau i gynnal yr hyfforddiant cydnerthedd a drefnwyd ar gyfer yr adran Rheoli Datblygu.

Gofynnodd Tegryn Jones a ellid cyflwyno'r ffigurau i ddangos absenoldeb tymor hir a thymor byr ar wahân, gan y gallai absenoldeb tymor hir fod wedi ystumio rhai ystadegau.

Gweithredu – Kelland Dickens

8. Diogelwch rhag Tân

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod Swyddogion Tân newydd wedi'u penodi ar gyfer adeilad Llanion, gan fod llai o staff yno i gynorthwyo o ganlyniad i fwy a mwy o staff bellach yn gweithio gartref.

Cadarnhaodd bod hyfforddiant wedi'i drefnu ac y byddai hyfforddiant gwacáu adeilad mewn achos o dân yn cael ei gynnal o fis Tachwedd ymlaen yn Llanion.

Cam gweithredu wedi'i gwblhau.

Ni wnaed unrhyw sylwadau pellach gan y grŵp.

9. Diweddariad ar Faterion Deddfwriaethol

Dywedodd Kelland Dickens bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi y byddai ymweliadau yn cael eu cynnal â busnesau gwaith coed ledled y DU i sicrhau bod rheolaethau ar waith i liniaru yn erbyn clefyd yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig â gwaith. Dywedodd ei fod wedi trafod hyn gyda Geraint a bod profion anadlol wedi'u cynnal ar y staff fel un o'r mesurau.

Cadarnhaodd Dyfan Evans bod y System Echdynnu Llŵch wedi'i wasanaethu yn ddiweddar ac y byddai profion llif yn cael eu hystyried cyn diwedd y flwyddyn.

Dywedodd Tegryn Jones bod rhywfaint o hyfforddiant gorfodol heb eu cynnal oherwydd Covid-19 a gofynnodd a oedd hyn wedi cael ei unioni.

Ymatebodd Kelland Dickens a Barbara Bevan drwy ddweud bod hyfforddiant gorfodol a glustnodwyd gan y rheolwyr wedi'i gynnal, megis hyfforddiant 'Olwynion Sgraffinio'. Cadarnhaodd Kelland Dickens bod adolygiad llawn o'r holl hyfforddiant iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal i gadarnhau a ddylai hyfforddiant arall fod yn orfodol.

10. Hyfforddiant

Cadarnhaodd Kelland Dickens y byddai pecyn e-ddysgu ELMS yn cael ei gyflwyno i'r holl staff yn ystod yr wythnos yn dechrau 31 Hydref. Bydd Codi a Chario, Cymorth Cyntaf ac Ymwybyddiaeth Tân yn cael eu trefnu i gael eu cwblhau yn gyntaf.

Cadarnhaodd Tegryn Jones ei fod yntau wedi cwblhau'r modiwl Recriwtio Mwy Diogel drwy ELMS ynghyd â staff eraill, a gofynnodd a ddylid defnyddio'r cyfarfod 'holl staff' i ddiweddarau'r staff ar ELMS. Gofynnodd Tegryn a oedd hyn ar gael ym mhob safle.

Cadarnhaodd Kelland Dickens ei fod wedi cael gair â TG i ddarparu rhai gliniaduron ar gyfer hyfforddiant, gan nad oedd y Wardeniaid yn gallu cael mynediad i Parcnet ar eu ffonau, felly roedd ffyrdd eraill o gael mynediad at hyfforddiant e-ddysgu yn cael eu hymchwilio. Dywedodd mai'r ddefnydd fyddai i'r Awdurdod gael ystafell bwrpasol ar gyfer hyfforddiant.

11. Unrhyw Fater Arall

Gofynnodd Sharon Thomas a oedd staff am barhau i lofnodi wrth fynedfa'r staff, gan fod rhai aelodau o staff bellach yn mynd i mewn drwy'r fynedfa i ymwelwyr ac nid yn llofnodi i mewn.

Cadarnhaodd Kelland Dickens mai mesur Covid-19 oedd hwn oherwydd y nifer cyfyngedig o Swyddogion Tân yn yr adeilad a'i fod yn ffordd o gydymffurfio â'r rheoliadau tân.

Cytunwyd y byddai nodyn atgoffa yn cael ei anfon at y staff i sicrhau bod staff yn llofnodi i mewn ac allan o'r adeilad. Cytunwyd hefyd i gadw cofrestr yn y ddwy fynedfa.

Gweithredu – KD

Dywedodd Sharon Thomas hefyd bod angen egluro'r amseroedd agor a chau yn Llanion, gan fod pwysau ar rai staff i adael yn gynnar.

Dywedodd Kelland Dickens ei fod yn ymwybodol o'r sefyllfa a'i fod yn drafftio llythyr i James Parkin ei anfon allan.

Gweithredu – KD

Cadarnhaodd Libby Taylor bod James Parkin wedi rhoi gwybod i'w dîm bod adolygiad o reolau Covid-19 yn cael ei ystyried. Gofynnodd a ddylai Covid-19 gael ei gynnwys fel llinell safonol ym mhob Asesiad Risg yn hytrach na chael Asesiad Risg ar wahân ar gyfer Covid-19.

Dywedodd Tegryn Jones bod y cyfraddau trosglwyddo'r feirws yn mynd nôl lan yn Sir Benfro a bod rhaid cymryd gofal, a gofynnodd i bobl fod yn amyneddgar dros y ddau fis nesaf i sicrhau bod mesurau yn eu lle cyn agor Llanion yn llawn.

Gofynnodd Libby Taylor a fyddai'r Awdurdod yn ystyried prynu'r profion Covid-19 i'w gwneud yn haws i staff brofi eu hunain.

Dywedodd Kelland Dickens bod y profion ar gael yn helaeth ar ddechrau'r Covid-19, a bod penderfyniad wedi'i wneud felly i roi'r cyfrifoldeb ar y gweithwyr, ond y byddai'n ymchwilio i gais Libby Taylor.

Cadarnhaodd Kelland Dickens bod yr Awdurdod yn y broses o ddiweddarau Asesiadau Risg i ymgorffori Covid-19 a chlefydau heintus eraill fel un o nifer o'r risgiau i'w hystyried wrth ysgrifennu Asesiad Risg. Ychwanegodd bod yr Awdurdod yn raddol dod i ben â chynnal asesiadau risg Covid-19 ar wahân.

Gofynnodd Liz Rooney a oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer Cyfarfod nesaf y Cynrychiolwyr Staff. Dywedodd Kelland Dickens y byddai'n cadarnhau hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Dywedodd Tegryn Jones y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o gyfansoddiad y grŵp yng ngoleuni'r strwythur newydd, er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli pob maes swyddogaeth.

Gweithredu – KD

Dyweddodd Kelland Dickens y byddai'n codi'r Contract Glanhau gydag Andrew Musket, gan fod staff gwrywaidd a benywaidd wedi mynegi cwynion wrtho am y toiledau a glendid yn gyffredinol.

Dyweddodd Kelland Dickens hefyd y gallai fod angen adolygu'r trefniadau glanhau ar gyfer Cilrhedyn yn ogystal ac y byddai'n trafod hyn gyda Geraint Harries.

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dyddiadau ar gyfer 2023 i'w trefnu a'u dosbarthu gan Kelland Dickens.